

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN



Dydd Iau, 14 Mawrth, 2024

09.30-11.30

Busnes@LlandrilloMenai; Ffordd Penlan; Parc Menai; Bangor; LL57 4HJ

Aelodau presennol:	
Enw	Sefydliad
Aled Jones-Griffith (AJG) - Cadeirydd	Grŵp Llandrillo Menai
Dylan Williams (DW)	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Dyfrig Siencyn (DS)	Cyngor Gwynedd
Geraint Owen (GO)	Cyngor Gwynedd
Dafydd Gwynne (DG)	Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Euros Jones (EJ)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ffion Johnstone (FfJ)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Emyr Williams (EW)	Parc Cenedlaethol Eryri
Bethan Russell Williams (BRW)	Mantell Gwynedd
Tracey Williams (TW)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Andrew Edwards (AE)	Prifysgol Bangor
Glyn Jones (GJ)	Llywodraeth Cymru
Llinos Davies (LID)	Heddlu Gogledd Cymru
Lydia Orford (LO)	Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Yn mynychu:	
Sandra Thomas (ST)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Dewi Wyn Jones (DWJ)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Gwenan Pritchard (GP)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Ymddiheuriadau:	
Cyng. Llinos Medi (LIM)	Cyngor Sir Ynys Môn
Lyndsey Campbell-Williams (LC-W)	Medrwn Môn
Catrin Thomas (CT)	Gwasanaeth Prawf

Pwyntiau Gweithredu

1. **Cynllun Llesiant 2023-2028** - Cynllun Cyflawni - diweddariad ar yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd ar gyfer yr amcan Sero Net Carbon i'w ddarparu yn y cyfarfod nesaf - **Tîm Cefnogi**
2. **Cynllun Llesiant 2023-2028** - Cynllun Cyflawni - edrych mewn i uwchraddio'r diagram i safon gellir ei argraffu - **Tîm Cefnogi**
3. **Dull System Gyfan a Pwysa Iach / Byw yn Iach** – Casglu ymatebion i'r cwestiynau a'u rhannu – **LO a DG**
4. **Dull System Gyfan a Pwysa Iach / Byw yn Iach** - Rhannu Credodau a Nodau drafft am sylwadau a'u cytuno yn y cyfarfod nesaf - **Tîm Cefnogi**
5. **Dull System Gyfan a Pwysa Iach / Byw yn Iach** – Aelodau i rannu rhagor o wybodaeth am yr hyn fydd sefydliadau yn ymrwymo iddynt dros y 6 mis nesaf. - **Pawb**
6. **Iaith Gymraeg – Prosiect Gweithlu Dwylieithog** - Cymorth ei angen i ganfod unigolion ar gyfer y cyfweiliadau. Cysylltu gyda GP os oes enghreifftiau o bobl addas. - **Pawb**
7. **Bwletin** - Gofynnwyd i aelodau gofio rhannu gwybodaeth fel bod y Tîm yn medru eu cynnwys – **Pawb**
8. **Digwyddiad Rhannu Dysgu i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – 22 Chwefror 2024** - Nodwyd siomedigaeth o ddiffyg defnydd o'r Iaith Gymraeg ac enghreifftiau o waith da sydd yn digwydd o fewn Cymru yn y digwyddiad, gyda sawl enghraifft o lwyddiannau yn Lloegr yn cael eu defnyddio a dim rhai lleol. Cytunwyd i lythyru'r Llywodraeth a oedd yn trefnu'r digwyddiad yn cyfleu hyn. Nodwyd hefyd i ddanfôn copi o'r llythyr i Gomisiynydd y Gymraeg. Dywedodd GJ y byddai'n adrodd yn ôl yn anffurfiol i'r Llywodraeth. - **Tîm Cefnogi a GJ**
9. **Digwyddiad Cymunedol Niwbwrch 7/3/24** - Dywedwyd bod angen i'r BGC sicrhau bod gweithred yn digwydd gan ei fod wedi ei drefnu o dan enw'r BGC. Angen gosod amserlen ar gyfer gweithredu. Gofynnwyd am gopi o'r adroddiad o'r digwyddiad yn y cyfarfod nesaf. - **Tîm Cefnogi**
10. **Unrhyw Fater Arall** - Tîm Cefnogi i holi y BGC eraill y Gogledd os oes modd iddynt hefyd lythyru ynghylch trydydd croesfan i'r Gweinidog newydd. - **Tîm Cefnogi**

Cofnod o'r drafodaeth

Eitem	Nodiadau	Pwy?	Erbyn pryd?
1.	Cafwyd gyfle i rwydweithio o flaen llaw y cyfarfod.		
2.	Croeso ac Ymddiheuriadau Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod a croesawyd pawb i'r cyfarfod.		
3.	Cofnodion (i'w cymeradwyo) Cytunwyd ar gywirdeb y cofnodion ar gyfer cyfarfodydd 11/12/23 a 20/09/23 a nodwyd bod y pwyntiau gweithredu wedi eu cwblhau.		
4.	Cynllun Llesiant 2023-2028 <u>Drafft o'r Cynllun Cyflawni</u> Nodwyd bod y cynllun cyflawni wedi ei gylchredeg gyda'r papurau. Nodwyd y bwriad bod y cynllun yn gryno yn crynhoi yr amcanion am y flwyddyn gan ddefnyddio diagram i'w wneud yn weledol. Cafwyd barn yr aelodau ar y cynllun gyda cefnogaeth i'r arddull hawdd i'w ddilyn sy'n cyfleu'r berthynas rhwng y tri amcan a'r flaenoriaeth iaith Gymraeg. Gofynnwyd am ddiweddariad ar yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd ar gyfer yr amcan Sero Net Carbon yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd bod angen bod yn glir sut ydym yn cyflawni yr hyn sydd wedi ei nodi yn y cynllun cyflawni gan sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn perchnogi yr hyn sydd wedi ei nodi rhwng cyfarfodydd. Dywedwyd bydd grwpiau	Tîm Cefnogi	12/06/24

	<p>Tasg a Gorffen yn cael eu sefydlu i yrru'r gwaith ymlaen a bydd yr Is Grŵp Iaith yn parhau.</p> <p>Nodwyd pwysigrwydd bod yr hyn sy'n cael ei drafod gan y Bwrdd yn cael ei raeadru ymlaen i'r sefydliadau sy'n aelodau. Un enghraifft yw bod y Gwasanaeth Tân wedi rhoi Pwysau Iach yn eu Cynllun 5 Mlynedd.</p> <p>Ategodd y Cadeirydd bod yn bwysig gweld hwn fel cynllun y Bwrdd a nid y Swyddogion Cefnogi. Dywedodd DW ei fod yn awyddus rhannu'r ddogfen yn gyhoeddus i godi proffil gwaith y Bwrdd. Cytunwyd i edrych mewn i uwchraddio'r diagram i safon gellir ei argraffu.</p> <p><u>Siarter Teithio Llesol</u></p> <p>Atgoffwyd bod y Bwrdd yn ei gyfarwydd wedi ymrwymo i gefnogi'r Siarter ac ein bod wedi gofyn i sefydliadau gadarnhau yr hyn maent yn ei wneud i gyrraedd rhai o amcanion y siarter. Nodwyd nad oes neb o'r aelodau wedi arwyddo yn ffurfiol hyd yma, ond bod CNC a'r Awdurdod Tân ac Achub yn agos iawn ati.</p> <p>Dywedodd y Brifysgol eu bod hwythau yn barod i arwyddo.</p> <p>Nodwyd bod trafodaethau yn parhau yn y sefydliadau eraill.</p> <p>Nodwyd bod Is-grŵp wedi ei sefydlu gyda swyddogion enwebedig o Gyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Prifysgol Bangor, CNC a'r Awdurdod Tân gyda'r cyfarfod cychwynnol yn cael ei gynnal ar 11/4/24.</p>	<p>Tîm Cefnogi</p>	<p>cgbm</p>
<p>5.</p>	<p>Eitem Drafod: Dilyniant Dull System Gyfan a Pwysa Iach / Byw yn Iach o gyfarfod 11/12/23</p> <p>Cafwyd sgwrs agored fel dilyniant i'r eitem gafwyd fis Rhagfyr. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yr ydych eisoes yn ei wneud ar yr agenda pwysau iach system gyfan? • Beth ydych chi wedi ymrwymo i'w wneud ar yr agenda pwysau iach dros y 6 mis nesaf? <p>Cafwyd sawl sylw defnyddiol a bydd LO a DG yn casglu'r ymatebion a'u cylchredeg.</p> <p>Gosod Credodau a Nodau ar y cyd – Tîm Cefnogi i rannu am sylwadau a'u cytuno yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Gofynnwyd hefyd am ragor o wybodaeth am yr hyn fydd sefydliadau yn ymrwymo iddynt dros y 6 mis nesaf.</p>	<p>LO a DG</p> <p>Tîm Cefnogi</p> <p>Pawb</p>	<p>Cgbm</p> <p>Cgbm</p> <p>cgbm</p>
<p>6.</p>	<p>Diweddariadau is-grŵpiau a Bwletin Iaith Gymraeg – Prosiect Gweithlu Dwyieithog</p> <p>Nodwyd yr adroddiad oedd wedi ei gylchredeg gyda'r papurau.</p> <p>Dywedwyd bod rhan helaeth o'r gwaith bellach wedi ei gwblhau a'r cam terfynol o gynnal cyfweiliadau yn digwydd yn fuan. Nodwyd bod angen cymorth i ganfod unigolion ar gyfer y cyfweiliadau, ac i gysylltu gyda GP os oes ganddynt enghreifftiau o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Staff sydd wedi ymgeisio am swyddi Cymraeg yn Hanfodol • Staff sy'n siaradwyr Cymraeg ond na amlygodd hynny yn ystod y broses recriwtio • Rheolwyr sy'n ansicr am ddynodi swyddi yn rhai Cymraeg yn Hanfodol 	<p>Pawb</p>	<p>Cgbm</p>

	<ul style="list-style-type: none"> Staff ar wahanol raddfeydd swyddi a mathau o swyddi sydd yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith yn gwaith <p>Diolchwyd i'r Tîm am eu gwaith gyda'r prosiect yma. Ychwanegwyd bod angen bod yn wylidwrus nad ydy'r iaith Gymraeg yn unig yn cael ei hadnabod fel rhwystr i ymgeisio am swyddi, gan fod yn aml nifer o rwystrau eraill.</p> <p><u>Bwletin</u> Gofynnwyd os yw aelodau yn gweld y Bwletin yn werthfawr ac i gofio rhannu gwybodaeth fel bod y Tîm yn medru eu cynnwys.</p> <p>Cafwyd adborth gadarnhaol i'r Bwletin, gan nodi ei fod yn ddefnyddiol ac hefyd yn atgoffwr i weithrediadau sydd angen eu cyflawni rhwng cyfarfodydd.</p>	Pawb	cgbm
7.	<p>Adrodd yn ôl gan y Cadeirydd</p> <p><u>Digwyddiad Rhannu Dysgu i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – 22 Chwefror 2024, Wrecsam</u> Nodwyd siomedigaeth o ddiffyg defnydd o'r iaith Gymraeg ac enghreifftiau o waith da sydd yn digwydd o fewn Cymru yn y digwyddiad, gyda sawl enghraifft o lwyddiannau yn Lloegr yn cael eu defnyddio a dim rhai lleol. Cytunwyd i lythyru'r Llywodraeth a oedd yn trefnu'r digwyddiad yn cyfleu hyn. Nodwyd hefyd i ddanfôn copi o'r llythyr i Gomisiynydd y Gymraeg. Dywedodd GJ y byddai'n adrodd yn ôl yn anffurfiol i'r Llywodraeth.</p> <p><u>Polisi Cymunedau Llywodraeth Cymru</u> Eglurwyd bod y Cadeirydd a'r swyddogion cefnogol wedi cael cyfarfod diweddar gyda'r Tîm yn ddiweddar. eglurwyd eu bod yn parhau i weithio ar y polisi ond bod yr amserlen yn ddibynnol ar y Gweinidog newydd. Nodwyd eu bod yn awyddus rhoi naws gogledd Cymru ar y polisi.</p> <p><u>Digwyddiad Cymunedol Niwbwrch 7/3/24</u> Digwyddiad llwyddiannus o dan arweiniad Cwmpas wedi ei gynnal gyda nifer o drigolion Niwbwrch i drafod a ceisio dod o hyd i ddatrysiadau i'r her parcio a thrafnidiaeth. Dywedwyd bod angen i'r BGC sicrhau bod gweithred yn digwydd gan ei fod wedi ei drefnu o dan enw'r BGC. Angen gosod amserlen ar gyfer gweithredu. Gofynnwyd am gopi o'r adroddiad o'r digwyddiad yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Nodwyd dyddiad cyfarfodydd nesaf fel: 12 Mehefin 18 Medi 9 Rhagfyr</p>	Tîm Cefnogi GJ	Cgbm Cgbm
8.	<p>Rhestr Rhwystrau a Datrysiadau - Nodi y rhestr oedd wedi ei gylchredeg eisoes. Cylch Gorchwyl - Nodi yr eitem oedd wedi ei gylchredeg eisoes.</p>		
9.	<p>Unrhyw Fater Arall Tîm Cefnogi i holi y BGC eraill y Gogledd os oes modd iddynt hefyd lythyru ynghylch trydydd croesfan rhwng Gwynedd a Môn i'r Gweinidog newydd.</p>	Tîm Cefnogi	cgbm